

## 1 ARARAT CHURCH

Probably the oldest surviving chapel in the village. Originally built by local Baptists in 1824 and rebuilt and extended many times over the years

The sketch shows the chapel in 1851, but is almost unrecognisable from today's chapel

The churchyard contains the graves of many of the local families at this end of the village

### CAPEL ARARAT

Mae'n debyg mai Ararat yw'r capel hynaf sy'n dal i oroesi yn y pentref. Cafodd ei godi'n wreiddiol gan Fedyddwyr lleol yn 1824 ac ychwanegwyd llawer o estyniadau ar hyd y blynyddoedd

Mae'r braslun yn dangos y capel yn 1851, ond mae bron yn amhosibl ei adnabod o edrych ar ei ddiwyg heddiw

Mae'r fynwent yn cynnwys beddau llawer o'r teuluoedd lleol o'r pen hwn i'r pentref

## 2 HOLLY COTTAGES

It has been suggested that Holly Cottages are the oldest houses still standing in the lower village. The pair of houses we see today with slated roofs and modern windows would have been very different. Perhaps a thatched roof, limewashed walls and tiny sash windows, maybe even as three tiny cottages

Phillip Williams was 40 years old in 1851, and was living in Holly Cottages with his wife and young family. His father (also Phillip) aged 70 was living there too. Phillip had a brother William who again was living in the cottage with his son, also called William (all very confusing)

The Williams family lived in Holly Cottages for the next 70 years

Mae rhai wedi awgrymu mai Holly Cottages yw'r tai hynaf sy'n dal i sefyll yn rhan isaf y pentref. Byddai'r ddau dŷ presennol gyda'u ffenestri modern a tho o lechi wedi bod yn wahanol iawn bryd hynny. Efallai mai to gwellt, waliau gwyngalchog a ffenestri codi bychain fyddai ganddynt, neu dri bwthyn bach o bosibl.

Yn 1851, roedd Phillip Williams yn 40 oed, ac yn byw yn Holly Cottages gyda'i wraig a'i deulu ifanc. Roedd ei dad (Phillip hefyd) yn 70 oed yn byw yno hefyd. Roedd gan Phillip frawd sef William, ac roedd yntau hefyd yn byw yn y bwthyn gyda'i fab, hefyd o'r enw William (sefyllfa ddryslyd iawn)

Bu'r teulu Williams yn byw yn Holly Cottages am y 70 mlynedd nesaf

## 3 BRYN GLAS

William Vachell was a retired 'druggist' in 1851 when he built Bryn Glas as his retirement home

It's all gone now, but it must have been a splendid mansion for a 62-year-old widower. He had a housekeeper and 2 servants to look after him, and the gardens were huge and landscaped, stretching all the way down to the Philog

By 1861, William had died, and engineer William Bedlington and his family were living there instead. The family were still there in 1891

After WW1, the house had become derelict and finally demolished. Retford Court flats now occupy the site of Bryn Glas

Fferyllydd wedi ymddeol yn 1851 oedd William Vachell pan adeiladodd Bryn Glas yn gartref iddo ar gyfer ei ymddeoliad

Mae'r cyfan wedi mynd nawr, ond mae'n rhaid ei fod wedi bod yn blasty gwych i ŵr gweddw 62 oed. Roedd howsgiper a dau arall yn gofalu amdano. Roedd y gerddi yn eang ac wedi eu tirlunio, ac yn estyn yr holl ffordd i lawr at y Philog

Erbyn 1861, â William wedi marw, daeth peiriannydd o'r enw William Bedlington a'i deulu i fyw yno yn ei le. Roedd y teulu yno tan 1891

Ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, roedd y tŷ wedi mynd â'i ben iddo a chafodd ei ddymchwel yn y diwedd. Erbyn hyn, fflatiau Retford Court sy'n sefyll ar safle Bryn Glas

#### **4 OLD POVEY'S HOUSE**

John Povey was 69 years-old when he moved to Whitchurch in 1861. The cottage was generous and the garden huge. Just right for a market gardener and his extended family from Berkshire

He must have been something of a character, as the house, sitting at the top of the hill at Gwauntreoda became known to all as 'Old Povey's House' and was still called that in 1904

It's not known when the cottage was demolished, but the Philog Court flats with its well-known pierced concrete screen was one of the earliest blocks of flats to be built in the village

#### **Tŷ'R HEN POVEY**

Roedd John Povey yn 69 oed pan symudodd i'r Eglwys Newydd yn 1861. Roedd y bwthyn yn sylweddol a'r ardd yn enfawr. Roedd hyn yn wych i arddwr masnachol a'i deulu estynedig o Berkshire

Mae'n rhaid ei fod wedi bod yn dipyn o gymeriad, gan fod y tŷ a oedd yn sefyll ar ben bryn yng Ngwauntreoda wedi cael yr enw '*Old Povey's House*' ac roedd yn enw a barhaodd hyd 1904

Nid yw'n hysbys pryd y cafodd y bwthyn ei ddymchwel, ond roedd fflatiau Philog Court gyda'i sgrin gyfarwydd o goncrit tyllog yn un o'r blociau cynharaf o fflatiau i gael ei adeiladu yn y pentref

## **5 BAYLIS' SHOP**

Samuel Baylis was a market gardener and was born in Wilshire. He moved to Gwauntreoda in the 1870s with his family and a young wife (he'd become widowed just previously). Sam's eldest son William was also a market gardener, and he too had a family

Two of William's boys joined their father in the business, probably working on the fields behind the main road

For a while though, William's eldest son William Henry lodged at the Wauntreoda shop just a few houses away, and worked as a baker

In due course, Sam died and his widow Elizabeth and the rest of the family continued as market gardeners, and lived next door to William Henry. The shop eventually became Baylis', run by Alf Baylis in the 1930s; well known as the greengrocers for the lower village

## **SIOP BAYLIS**

Garddwr masnachol oedd Samuel Baylis yn enedigol o Wiltshire. Symudodd i Gwauntreoda yn yr 1870au gyda'i deulu a gwraig ifanc newydd (bu farw ei wraig gyntaf ychydig cynt). Roedd William, ei fab hynaf, hefyd yn arddwr masnachol ac roedd ganddo yntau deulu hefyd

Ymunodd dau o feibion William â'u tad yn y busnes, gan weithio yn y caeau y tu ôl i'r brif ffordd, mae'n debyg

Am gyfnod, roedd William Henry, mab hynaf William, yn lletya yn siop Gwauntreoda sef un o'r tai cyfagos, ac roedd yn gweithio fel pobydd

Ymhen amser, bu farw Sam a pharhaodd ei weddw, Elizabeth, a gweddill y teulu yn arddwyr masnachol, gan fyw drws nesaf i William Henry. Maes o law, daeth y siop yn eiddo i'r teulu Baylis, gydag Alf Baylis yn ei rhedeg yn y 1930au; dyma oedd y siop lysiau ar gyfer rhan isaf y pentref

## **6 Y FILOG**

We're told that in 1811, the name Philog referred 'particularly to an old thatched house on the north side of the highroad to Whitchurch, where a lane branches off eastwards to the Heath'

The row of tiny cottages sat on the narrow road where Eddy's bakery once was. Y Filog is mentioned in the earliest census returns, but any detail has been long lost.

The sketch, based on an old photograph, might well be Y Filog

Yn ôl y sôn, yn 1811, roedd yr enw Philog yn cyfeirio'n benodol at hen dŷ to gwellt ar ochr ogleddol y brif ffordd i'r Eglwys Newydd, lle mae heol yn fforchio i'r dwyrain i gyfeiriad y Mynydd Bychan

Safai'r rhes o fythynnod bychain ar y ffordd gul lle'r oedd becws Eddy ar un adeg. Mae'r enw Y Filog yn ymddangos ar ffurflenni cynharaf y cyfrifiad, ond mae unrhyw fanylion wedi mynd ar goll.

Mae'n ddigon posib mai'r braslun, sy'n seiliedig ar hen ffotograff, yw Y Filog

## **7 PHILOG HOUSE**

There has been a house on this corner for at least 200 years. Maybe much longer

The name Philog is lost in history, with many strange suggestions. There was a detached house on the plot at the time of the Tithe Map, with various outbuildings

Philog House appears on early census forms and has had numerous tenants and owners over the years

One tenant, Henry Hopkins had moved into Philog House by 1881. He was the Relieving Officer for the district. It was his job to 'dole' out the poor relief to the poorest in the parish

Many locals still refer to the house as 'Hopkins Corner', and it's been suggested that there are still indications of a blocked-up window in the house where the poor would seek parish assistance

### **TŶ PHILOG**

Bu tŷ ar y gornel hon am o leiaf 200 mlynedd neu'n llawer hirach o bosibl.

Mae'r enw, Philog, yn mynd ar goll gydag amser, ac mae llawer o awgrymiadau rhyfedd wedi eu cynnig. Roedd tŷ sengl ar y llain o dir ar Fap y Degwm, gyda thai mas amrywiol

Gwelir Tŷ Philog ar ffurflenni'r cyfrifiadau cynnar a bu tenantiaid a pherchnogion niferus yma dros y blynyddoedd

Roedd un tenant, sef Henry Hopkins wedi symud i Dŷ Philog erbyn 1881. Ef oedd y Swyddog Cymorth ar gyfer yr ardal. Ei waith ef oedd rhannu budd-daliadau i aelodau tlotaf y plwyf

Mae llawer o bobl leol yn dal i gyfeirio at y tŷ fel 'Hopkins Corner', ac awgrymwyd bod arwyddion o ffenestr wedi'i chau i ffwrdd yn y tŷ o hyd lle deuai'r tlodion i ofyn am arian y plwyf

## **8 SAM BENNETT, BUILDER**

Sam Bennett, a Cornishman, was a builder who constructed many of the houses in the village. After his death, his sons continued the business, building many of the houses at the bottom end of Manor Way (now the A470)

The sons built the large house on the corner for their mother to live in, who named it Manor House!

The boys also built the strangely-shaped building facing The Philog, as a hairdressing salon for their sister, with a small flat over. It's now converted into a small house

## **SAM BENNETT, ADEILADWR**

Adeiladwr a oedd yn hanu o Gernyw oedd Sam Bennett, ac ef fu'n gyfrifol am adeiladu llawer o'r tai yn y pentref. Pan fu farw, parhaodd ei feibion i redeg y busnes, gan godi llawer o'r tai ar ben pellaf Manor Way (yr A470 erbyn hyn)

Cododd y meibion y tŷ mawr ar y gornel ar gyfer eu mam, a'i enwi yn Manor House!

Y bechgyn oedd hefyd yn gyfrifol am godi'r adeilad o siâp anarferol gyferbyn â'r Philog, fel salon trin gwallt i'w chwaer, gyda fflat bach uwchben. Erbyn hyn mae'r adeilad wedi ei droi yn dŷ bychan

## **9 PLWCA HALOG**

The Philog Brook defines the historic boundary between the Parish and the town of Cardiff. It's now been culverted under the road

In the dim and distant past, the area was a wild and open area, with just a rough track running between the village and its larger neighbour

We're told that a lost name in the Whitchurch area from 1605 was Plwca Halog, which means the 'Foul or Defiled Pleck'. So, was this area Plwca Halog? Perhaps the place where the village stocks were located? Or maybe the location for the gibbet?

Just to warn strangers!

Nant y Philog yw'r ffin hanesyddol rhwng y Plwyf a thref Caerdydd. Mae bellach yn rhedeg trwy geuffos o dan y ffordd

Yn y gorffennol pell, roedd yma ardal wyllt ac agored, gyda dim ond llwybr garw yn rhedeg rhwng y pentref a'r dref fawr gyfagos

Yn ôl y sôn, mae Plwca Halog yn enw a aeth ar goll yn ardal yr Eglwys Newydd yn 1605. Ystyr yr enw yw llaid halogedig. Felly, a oedd y darn tir hwn yn halogedig? Efallai mai dyma leoliad cyffion neu grocbren y pentref?

Dim ond rhybudd i bobl ddiarth!

## **10 WAR DAMAGE**

January 1941 was a bad time for bombing in Cardiff. Here are some village stories:

"We were having supper at the table in the living room of our house in Violet Place when the air raid siren sounded. Next thing we heard was a terrific bang and all went black. I remember my neighbour Tom shouting, asking if we were all right. We were covered in rubble and all of the back of the house was completely down"

"Another bomb fell on the corner of Wauntreoda Road, completely destroying it. My dad was an air raid warden and was blown into Eddy's baker shop opposite"

"We were taken to Ararat Church for the night, and the next day to Coryton Lodge until we were able to find 'rooms' as people did in wartime"

## **DIFROD RHYFEL**

Yn Ionawr 1941, gwelwyd llawer o fomio yng Nghaerdydd. Dyma ychydig o hanes y pentrefwyr:

"Roedden ni'n cael swper wrth y bwrdd yn yr ystafell fyw yn ein tŷ ni yn Violet Place pan ddechreuodd seiren y cyrchoedd awyr ganu. Yn sydyn daeth ergyd anferth ac aeth popeth yn ddu. Dwi'n cofio ein cymydog Tom, yn gweiddi ac yn gofyn a oedden ni i gyd yn iawn. Roedden ni wedi ein gorchuddio â rwbel ac roedd cefn y tŷ wedi dymchwel yn llwyr"

"Fe ddisgynnodd bom arall ar gornel Heol Wauntreoda, gan ddinistrio'r lle yn llwyr. Roedd fy nhad yn un o wardeiniaid y cyrchoedd awyr a chafodd ei chwythu i mewn i siop fara Eddy gyferbyn"

"Cawsom ein hebrwng i Eglwys Ararat dros nos, ac i Coryton Lodge drannoeth nes i ni allu dod o hyd i le i aros, fel y byddai pobl yn ei wneud adeg y rhyfel"

## **11 FLAYS FARM**

Flays Farm is long gone and replaced by the houses we see today. The detached building is probably all that remains

Originally called Gwauntreoda Farm, its origins are unknown. It was there in 1841, but was probably much older

The Flay family lived here in the early 20<sup>th</sup> century, and farmed all of the land to the south. They used shire horses for ploughing and to pull the wagons at harvest time

They were awarded the contract to collect all of the rubbish from the village houses and they used the same shire horses and carts. They were a well-known sight in the village at the time. The rubbish was dumped into the quarry at Maindy (now Maindy Stadium and Swimming Pool)

## **11 FFERM Y TEULU FLAY**

Mae Fferm y teulu Flay wedi hen ddiflannu a thai wedi eu codi yno erbyn heddiw. Mae'n siŵr mai'r adeilad unigol a welwn heddiw yw'r cyfan sydd ar ôl

Ei henw gwreiddiol oedd Fferm Gwauntreoda, ond mae ei hanes cynnar yn anhysbys. Yn 1841 y gwelwn y cofnod cyntaf amdani, ond mae'n siŵr o fod yn llawer hŷn

Roedd y teulu Flay yn byw yma ar ddechrau'r 20<sup>fed</sup> ganrif, ac yn ffermio'r tir deheuol i gyd. Ceffylau gwedd fyddai'n aredig ac yn tynnu'r wagenni adeg y cynhaeaf

Roedd gan y teulu gytundeb i gasglu'r holl sbwriel o dai'r pentrefwyr, a bydden nhw'n defnyddio'r un ceffylau gwedd a wagenni i wneud y gwaith. Roedd hyn yn olygfa gyfarwydd yn y pentref ar y pryd. Byddai'r sbwriel yn cael ei daflu i'r chwarel yn y Maendy (sef Stadiwm a Phwll Nofio Maendy erbyn hyn)

## **12 WHITCHURCH COMMON**

Whitchurch Common was never common land, but formed part of 4 mediaeval manors meeting here. It was gifted to the parish council in the early part of the 20<sup>th</sup> century

Once the site of Gypsy camps and irregular fairs, the high point of the common arose in 1943, when a unit of the American Army encamped here for months whilst training for D-Day. Many older residents still fondly remember this period

The avenues of trees lining the road were purchased by a gift of money from the Americans in appreciation of the warmth given by the village to the soldiers. The plaques commemorate this

## **12 COMIN YR EGLWYS NEWYDD**

Ni fu Comin yr Eglwys Newydd erioed yn dir comin, ond roedd yn rhan o 4 maenordy canoloesol a oedd yn cwrdd yma. Cyflwynwyd y tir yn rhodd i'r cyngor plwyf ar ddechrau'r 20<sup>fed</sup> ganrif

Ar un adeg roedd yn safle i Sipsiwn wersylla ac i gynnal ffeiriau. Daeth y comin yn bwysicach ym 1943, pan godwyd gwerysll yma am ychydig fisoedd i garfan o Fyddin yr Americanwyr pan oedden nhw'n paratoi at Ddiwrnod y Glanio. Mae llawer o'r trigolion hŷn yn dal i gofio'n annwyl am y cyfnod hwn

Prynwyd y coed sy'n ymlwybro ar hyd ochr y ffyrdd trwy rodd ariannol gan yr Americanwyr i ddangos eu gwerthfawrogiad o gynhesrwydd y croeso a gafodd y milwyr gan y pentrefwyr. Mae'r placiau coffa yn nodi hyn

## **13 VINE COTTAGE**

Vine Cottage no longer exists. It was another modest thatched cottage, this one located alongside the Whitchurch Brook on the site of the builder's merchant's yard

The sketch shows how Vine Cottage might have looked in 1892 with whitewashed walls and tiny windows

Vine Cottage was home to Eli Evans, who was listed in the 1841 census as a sculptor. It seems that Eli was more of a monumental mason however, and he designed many of the gravestones and memorials around the village, including the family mausoleum for the Bookers in old St Mary's graveyard. He's buried in Ararat Chapel opposite, but sadly without a gravestone

Nid yw Vine Cottage yn bodoli mwyach. Bwthyn to gwellt di-nod arall ydoedd, safai wrth ochr Nant yr Eglwys Newydd ar y safle lle mae iard y cyflenwyr adeiladwyr

Mae'r braslun yn dangos sut oedd Vine Cottage o bosibl yn edrych yn 1892 gyda waliau gwyngalchog a ffenestri bychain.

Roedd Vine Cottage yn gartref i Eli Evans, a restrwyd yng nghyfrifiad 1841 fel cerflunydd. Mae'n ymddangos mai saer meini coffa oedd Eli yn bennaf, a chynlluniodd lawer o'r cerrig beddau a'r cofebion o gwmpas y pentref, gan gynnwys beddrod teuluol y Bookers yn hen fynwent eglwys y Santes Fair

Mae wedi ei gladdu yng Nghapel Ararat gyferbyn, ond trist yw dweud nad oes carreg fedd i nodi'r fan.

## **14 THREE ELMS PUB**

The Three Elms Pub has been on Whitchurch Common since the 18<sup>th</sup> century

On the Tithe Map of 1841 the Three Elms Pub was an old building set at an angle to the road, so that it formed an informal square. The sketch shows what the old pub probably looked like in 1892

The local blacksmith had his forge alongside the pub and the brook

In the mid-19<sup>th</sup> century, the square was home, twice-a-year to a very popular horticultural show sponsored by Thomas Booker, the local ironmaster. It's not surprising that many of the show prizes awarded were won by Mr Booker's own gardener

## **TAFARN Y THREE ELMS**

Mae Tafarn y Three Elms wedi bod ar Gomin yr Eglwys Newydd ers y 18<sup>fed</sup> ganrif

Ar Fap y Degwm yn 1841 roedd Tafarn y Three Elms yn hen adeilad wedi ei osod ar ongl i'r ffordd, gan greu sgwâr anffurfiol. Mae'r braslun yn dangos sut olwg oedd ar yr hen dafarn yn 1892 yn ôl pob tebyg

Roedd gan y gof lleol ei efail wrth ochr y dafarn a'r nant

Yng nghanol y 19<sup>eg</sup> ganrif, ddwywaith y flwyddyn, fe gynhaliwyd sioe arddwriaeth boblogaidd iawn ar y sgwâr. Byddai Thomas Booker, y meist'r hae'n lleol yn ei noddi. Nid yw'n syndod felly fod nifer o wobrau'r sioe yn cael eu hennill gan arddwr Mr Booker ei hun!